Archifdy ac Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Prosiect Treftadaeth Gymunedol Wrecsam

Newyddion Treftadaeth | Cyhoeddiad Rhifyn 5

Gwaith ar fynd

Bydd pawb sy'n mynd heibio'r amgueddfa wedi sylwi bod y gwaith adeiladu ar fin cael ei gwblhau.

Mae'r estyniad gwydr newydd wedi'i osod, mae'r orielau newydd yn barod i gael eu gosod ac mae'r toiledau newydd yn lân ac fel pin mewn papur.

Sicrhau bod yr estyniad gwydr yn dal dwr.

Rydym ar fin penodi'r cwmni gosod amgueddfeydd a fydd yn llunio'r orielau newydd ac mae'r gwaith eisoes ar fynd er mwyn cynhyrchu'r arddangosfeydd, ffilmiau a'r atyniadau rhyngweithiol newydd a fydd yno'n barod i'r ymwelwyr pan fydd yr amgueddfa'n ailagor. Fe archebwyd cabinetau arddangos newydd – pump ar hugain ohonynt - a byddant wedi cyrraedd erbyn diwedd mis Tachwedd.



Gwaith ar fynd y tu mewn i'r estyniad gwydr.

I bob golwg, o'r tu allan, mae'r amgueddfa wedi'i chwblhau, ond da chi byddwch yn amyneddgar â ni. Mae gennym gryn dipyn o waith i'w wneud o hyd y tu mewn i'r adeilad cyn y gallwn ni ailagor i'r cyhoedd.



Pwyntio'r bricwaith y tu mewn i'r logia blaen.

Cyfle i Ddewis

Ydych chi wastad wedi bod o'r farn mai'r curaduron sy'n cael y dasg bleserus o ddewis y gwrthrychau i'w harddangos?

Wel dyma'ch cyfle i gymryd rhan yn hynny. Bydd pawb sy'n dod i weld yr orielau yn mynd trwy goridor y fynedfa, a bydd cabinetau arddangos ar hyd y coridor hwn. Rydym yn chwilio am grwpiau o'r gymuned leol, o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, i gynorthwyo i ddewis a dehongli gwrthrychau o gasgliad yr amgueddfa, er mwyn iddynt gael eu harddangos yn y cabinetau hyn.

Beth am ichi roi help llaw i adrodd hanes Bwrdeistref Sirol Wrecsam trwy gyfrwng y gwrthrychau y byddwch yn eu dewis, a'r straeon y byddant yn eu dwyn i gof.

Ar Daith Unwaith Eto

Yn ystod y misoedd diwethaf bu sioe deithiol Treftadaeth Wrecsam (a'i chwaer fach yr "Amgueddfa Ar Daith") yn teithio o gwmpas y fwrdeistref sirol er mwyn mynd i hwylddyddiau cymunedol a ffeiriau pentref.

Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac mae pawb - yr hen a'r ifanc - wedi cael cyfle i wisgo amdanynt mewn gwisgoedd hanesyddol, trefnu fesul dau y bobl a'r gwrthrychau o Wrecsam yn yr oes a fu (e.e. John Wilkinson a'i fagnel), rhoi prawf ar faint yr oeddent yn ei wybod am ddigwyddiadau lleol a phryd y gwnaethant ddigwydd, ac enwi'r lleoedd hynny a welsant mewn hen ffotograffau. **Cafodd pawb hwyl aruthrol arni!**

Marchog ifanc a'i riain deg, yn ffair bentref Gresffordd

I gael y newyddion diweddaraf am y prosiect ewch at: www.wrecsam.gov.uk/amgueddfeydd lle cewch chi ddarllen Dyddiadur yr Amgueddfa.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam